CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

RHIFYN YR HAF 2025

## HER FFITRWYDD DIFFODDWYR TÂN CYMRU
TUDALEN 8






## UCHEL SIRYFION YN YMWELD Â'R PENCADLYS A CHAERFYRDDIN
TUDALEN 12


### CADEIRYDD A DIRPRWY NEWYDD AWDURDOD TÂN
TUDALEN 3

### GWNEUD GWAHANIAETH FEL DIFFODDWR TÂN AR ALWAD
TUDALEN 10

### PARÊD CWBLHAU HYFFORDDIANT CADETIAID TÂN
TUDALEN 6

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| AWDURDOD TÂN | 3 |
| COMMS IN DIVISION | 4 |
| HER FFITRWYDD DIFFODDWYR TÂN 2025 | 8 |
| GWNEUD GWAHANIAETH FEL DIFFODDWR TÂN AR ALWAD | 10 |
| YMWELIAD UCHEL SIRYFION | 12 |
| DIGWYDDIADAU | 13 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 14 |
| #DOETHIDANAUGWYLLT | 17 |
| SWYDDI | 18 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

**1588** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli

**788** Digwyddiadau a fynychwyd

**53** O danau mewn adeiladau

**288** O alwadau ffug

**8** Anifail wedi'u Hachub

**5** O ddigwyddiadau achub dwr

**49** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**63** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill



JOHN DAVIES



MATTHEW CROWLEY

# CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD NEWYDD AR GYFER AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

**Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd wedi'u hethol i arwain Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru dros y ddwy flynedd fwrdeistrefol nesaf.**

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod Tân ddydd Llun, 9 Mehefin, 2025, etholwyd y Cynghorydd John Davies o Sir Benfro yn Gadeirydd ac etholwyd y Cynghorydd Matthew Crowley o Gastell-nedd Port Talbot yn Ddirprwy Gadeirydd

Wrth siarad am gael ei ethol yn Gadeirydd yr Awdurdod Tân, dywedodd y Cynghorydd John Davies:

***"Mae'n fraint enfawr cael fy ethol yn Gadeirydd ar adeg o newidiadau a heriau sylweddol o fewn y sector Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Byddaf yn ymdrechu, ynghyd â fy nghyd-aelodau o'r Awdurdod Tân, i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, o'r staff sy'n llywio'r Gwasanaeth, i'r aelodau o'r cyhoedd yr ydym yn eu cynrychioli a'u diogelu. Mae'n anrhydedd cael bod yn gysylltiedig â Gwasanaeth sy'n parhau i wasanaethu ei gymunedau'n effeithiol pan fo angen arnynt."***

Wrth sôn am ei benodiad yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân, dywedodd y Cynghorydd Crowley:

***"Mae'n fraint ac yn anrhydedd ddeublyg i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân.***

***Fel gyda phob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym amser heriol o'n blaenau, ond gydag ymrwymiad ein Haelodau etholedig a'n Swyddogion, rydym yma i roi'r Gwasanaeth Tân ac Achub gorau i'r cyhoedd.***

***Mae'r penodiad hwn hefyd yn golygu llawer i mi yn bersonol, gan fy mod yn dilyn ôl troed fy niweddar dad gan ei fod ef hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd ac yna'n Gadeirydd yr Awdurdod Tân rhwng 2007 a 2009."***

**Y GORLLEWIN**

# NOSON YMARFER GORSAF DÂN LLANDEILO

**Ar ddydd Llun, 23 Mehefin, cawsom ein croesawu i un o nosweithiau ymarfer Gorsaf Dân Llandeilo.**

Mae nosweithiau ymarfer yn rhan hanfodol o fod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad. Maent yn rhoi amser hanfodol i gynnal ymarferion hyfforddi, ffugio senarios argyfwng, a chynnal a chadw offer - gan sicrhau bod y criw bob amser yn barod i ymateb pan fo angen.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i ddysgu mwy am y tîm ymroddedig y tu ôl i’r orsaf a’r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae yn y gymuned leol. Gyda dim ond chwech o Ddiffoddwyr Tân ar Alwad, mae Llandeilo nid yn unig yn ymateb i ddigwyddiadau sy’n gysylltiedig â thân ond hefyd yn mynd i argyfyngau meddygol fel gorsaf gyd-ymatebol ddynodedig.

Fel yr unig orsaf gyd-ymatebol yn yr ardal, mae gan y criw gyfrifoldeb sylweddol—a dyna ble gallech chi gamu i’r adwy.







# MAE AR LANDEILO EICH ANGEN CHI!

Mae Gorsaf Dân Llandeilo yn recriwtio Diffoddwyr Tân ar Alwad newydd.

Os ydych chi’n chwilio am ffordd ystyrlon o gefnogi eich cymuned leol, gallai hwn fod yn gyfle i chi. Gall unrhyw un ddod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad - dim ond ymrwymiad, hyfforddiant, a pharodrwydd i helpu sydd eu hangen arnoch chi.

Dyma’r diffoddwr tân Tanja i rannu ei stori hi::
***“Roedd dod yn ddiffoddwr tân ar alwad yn ddymuniad gen i ers erioed. Roeddwn i’n meddwl fy mod wedi colli fy nghyfle oherwydd fy oedran; fodd bynnag, ’dyw oedran ddim yn rhwystr! O’r diwedd rydw i’n cyflawni fy mreuddwyd yn 57 oed.”***

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno, llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb ar ein gwefan a chymerwch y cam cyntaf tuag at wneud gwahaniaeth go iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb yng Ngorsaf Dân Llandeilo am eich croeso cynnes a’ch ymroddiad parhaus i’r gymuned.






# ANRHYDEDD MBE I STEVE AMOR, RHEOLWR GWYLFA WEDI YMDDEOL

**Mae Steve Amor, Rheolwr Gwylfa wedi ymddeol o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi derbyn MBE gan Ei Fawrhydi y Brenin yn ei Restr Anrhydeddau Pen-blwydd 2025.**

Mae Steve, a gwblhaodd 35 mlynedd o wasanaeth gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, gan weithio ei yrfa gyfan yng Ngorsaf Dân Llanwrtyd, wedi derbyn MBE am ei wasanaeth i'w gymuned.

Dywedodd Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas KFSM:

*"Roeddwn yn falch iawn o glywed bod ein cyn gydweithiwr, Steve Amor, wedi derbyn MBE fel rhan o Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin.*

*Yn ystod ei yrfa hir a disglair yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gweithiodd Steve yn ddiflino i gefnogi ei gymuned leol nid yn unig fel rhan o'r Gwasanaeth Tân ac Achub ond hefyd fel Cyd-Ymatebydd Meddygol yn cefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.*

*Mae Steve hefyd wedi cefnogi nifer o grwpiau gwirfoddol yn ardal Llanwrtyd ac felly mae'n dderbynnydd teilwng o'r wobr fawreddog hon. Ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rwy'n estyn ein llongyfarchiadau mawr i Steve."*

ERTHYGL LLAWN

Y DE

# CADETIAID TÂN

**Mae'r Cadetiaid Tân yn sefydliad ieuenctid cenedlaethol mewn lifrai sy'n cael ei gefnogi gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ac sy'n cael ei redeg gan Wasanaethau Tân ac Achub unigol ledled y DU.**

Nod y Rhaglen Cadetiaid Tân yw creu cymunedau mwy diogel trwy ddatblygu gwybodaeth pobl ifanc am y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r sgiliau cysylltiedig. Mae'n helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel rhag tân mewn amgylchedd hwyliog a diogel.

# PARÊD CWBLHAU HYFFORDDIANT

## CADETIAID DYFFRYN AMAN



**Ddydd Iau, 12 Mehefin cynhaliwyd Parêd Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsaf Dân Dyffryn Aman i ddathlu llwyddiannau'r grŵp diweddaraf o Gadetiaid Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC). .**

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r bobl ifanc ymroddedig hyn wedi dysgu ystod eang o sgiliau a thechnegau gwerthfawr trwy hyfforddiant ar faes ymarfer yr Orsaf Dân ac addysg yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r Cadetiaid wedi ennill cymhwyster Cadetiaid Tân a chyflwynwyd tystysgrif cyflawniad iddynt gan y Rheolwr Ardal Geraint Thomas.

## CADETIAID ABER-CRAF



**Ddydd Llyn, 16 Mehefin cynhaliwyd Parêd Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsaf Dân Aber-craf i ddathlu llwyddiannau'r grŵp diweddaraf o Gadetiaid Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).**

Mae'r Cadetiaid wedi ennill cymhwyster Cadetiaid Tân a chyflwynwyd tystysgrif cyflawniad iddynt gan y Rheolwr Gorsaf Mark Ayling..

# CADETIAID BLAENDULAIS

**Ddydd Mawrth, 17 Mehefin cynhaliwyd Parêd Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsaf Dân Blaendulais i ddathlu llwyddiannau'r grŵp diweddaraf o Gadetiaid Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC).**

Mae'r Cadetiaid wedi ennill cymhwyster Cadetiaid Tân a chyflwynwyd tystysgrif cyflawniad iddynt gan y  Y Prif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM. Roedd y dathliad hwn yn nodi carreg filltir arwyddocaol i Orsaf Dân Blaendulais, gan mai hon oedd eu hugeinfed flwyddyn o gynnal y rhaglen diffoddwyr tân ifanc, sydd ers hynny wedi datblygu i fod y Cadetiaid Tân




# GWNEWCH GAIS I DDOD YN UN O'R CADETIAID TÂN HEDDIW!



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) bellach yn recriwtio Cadetiaid Tân mewn Gorsafoedd Tân ar draws ardal y Gwasanaeth.

Mae'r rhaglen Cadetiaid Tân yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd y Cadetiaid hefyd yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau bywyd pwysig a fydd yn ysbrydoli dewisiadau cadarnhaol ar gyfer eu dyfodol.

**Ydych chi rhwng 13 ac 16 oed ac yn barod am her newydd — neu ydych chi'n adnabod rhywun a fyddai?**

Mae ein cynllun Cadetiaid Tân yn ffordd berffaith o ddatblygu sgiliau newydd cyffrous, magu hyder, a chael golwg unigryw ac ymarferol ar fywyd yn y gwasanaethau brys!

Am ragor o wybodaeth ac i ddysgu sut i wneud cais, ewch i - Cadetiaid Tân

# HER FFITRWYDD DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2025

**Ddydd Sadwrn, 7 Mehefin, daeth diffoddwyr tân o bob cwr o'r DU at ei gilydd ym Marina Abertawe i gymryd rhan yn Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân Cymru, sy'n rhan o gyfres Her Diffoddwyr Tân Prydain.**

Mae Her Ffitrwydd Diffoddwyr Tân Cymru yn cael ei threfnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), ac mae'n helpu i godi arian pwysig i Elusen y Diffoddwyr Tân, sy'n cefnogi lles meddyliol ac iechyd corfforol holl aelodau teulu tân y DU sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol.

Fe werthwyd yr holl leoedd yn y digwyddiad yn yr amser cyflymaf erioed, sef 21 munud. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe, am y drydedd flwyddyn. Roedd y sgwâr unwaith eto yn llawn gwylwyr o'r dechrau i'r diwedd trwy gydol y dydd.

Ochr yn ochr â'r heriau ffitrwydd diffoddwyr tân, cynhaliodd GTACGC 'Bentref Diogelwch Cymunedol' lle roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu cael cyngor a gwybodaeth am ddiogelwch yn rhad ac am ddim gan ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau partner. Dyma rai o'r rhai a ymunodd â ni ar y diwrnod: **Heddlu De Cymru**, **Gan Bwyll**, **Guide Dogs Cymru**, **Specsavers y Mwmbwls**, **Wales and West Utilities**, **Sadie's Butterflies**, **y Groes Goch Brydeinig**, **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**.

**ERTHYGL LLAWN**

**Roedd y diwrnod cyfan yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn edrych ymlaen at ddigwyddiad y flwyddyn nesaf!**












RE-TEX
PRODUCTS
HEROES WEAR HAIX




WHEN YOU GO IN,
WE GO IN WITH YOU.
GORE-TEX

# AMDDIFFYN EICH CYMUNED, EICH FFORDD CHI

**Yn gynharach eleni, cyflwynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru system bandio cyflogau ac argaeledd newydd.  Dyma system sy'n cydnabod yr angen i gydbwyso gwaith a bywyd personol, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n awyddus i ddod yn Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.**

Mae'r system bandio newydd yn cynnig pum dewis argaeledd i ddisodli'r ddau a oedd ar gael cynt, gan roi mwy fyth o hyblygrwydd i'n Diffoddwyr Tân Ar Alwad a'n darpar Ddiffoddwyr Tan Ar Alwad ddewis sut maen nhw am wasanaethu

MWY O WYBODAETH




## GWNEUD GWAHANIAETH: SUT MAE MELANIE YN GWASANAETHU EI CHYMUNED FEL DIFFODDWR TÂN AR ALWAD

**Mae Melanie yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin, ac mae'n cydbwyso bywyd bob dydd a swydd llawn amser wrth wasanaethu a gwarchod ei chymuned leol.**

Yn y fideo hwn, mae hi'n rhannu'r hyn a'i hysbrydolodd i ymuno â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr hyn y mae hi wedi'i ddysgu o'r rôl a pham ei fod yn un o'r penderfyniadau mwyaf gwerth chweil y mae hi erioed wedi'i wneud.



BLUEPRINT FOR CHANGE

# AIL-LUNIO EIN GWASANAETH

**Ddydd Iau 26 Gorffennaf 2025, cynhaliwyd ein Gweithdy Glasbrint ar gyfer Newid - Ail-lunio Ein Gwasanaeth yn Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe.**

Wedi'i gychwyn yn rhannol oherwydd ein harchwiliad diwylliannol diweddar a gynhaliwyd gan Crest, ac adolygiadau a gynhaliwyd gan y Prif Ymgynghorydd a'r Arolygydd Tân ac Achub, rydym yn cydnabod bod strwythur sefydliadol cadarn a llywodraethu clir yn hollbwysig i lwyddiant unrhyw Wasanaeth Tân ac Achub. O'r herwydd, ymchwiliodd y gweithdy i bynciau allweddol megis rolau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, arferion gorau mewn llywodraethu a goblygiadau strwythurau sefydliadol ar ddarparu gwasanaethau.

Dan arweiniad grŵp o hwyluswyr gwych, roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, gyda dros 100 o staff o bob rhan o'n Gwasanaeth yn ymuno â ni ar y daith bwysig hon tuag at gryfhau sylfeini ein Gwasanaeth Tân ac Achub.



DAVID TEE



HELEN STEPHENS



FRANCESCA HILL



DINAH GRIFFITHS



CERI WITCHARD




FRAN O'HARA



# UCHEL SIRYFION YN YMWELD Â'R PENCADLYS A CHAERFYRDDIN

**Ddydd Gwener, 20 Mehefin, croesawodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg Diana Stroia, Uchel Siryf Dyfed Ann Jones DL ac Uchel Siryf Powys Sally Roberts ar gyfer ymweliad blynyddol â Phencadlys y Gwasanaeth a Gorsaf Dân Caerfyrddin.**

Mae'r tri Uchel Siryf newydd dyngu llw ac roedden nhw'n awyddus i ddysgu mwy am sut mae'r Gwasanaeth yn gweithio a'r gefnogaeth rydyn ni'n ei roi i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

I ddechrau, fe wnaethant gyfarfod â'n Prif Swyddog Tân Roger Thomas KFSM a'u cyflwynodd i'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, lle buont yn trafod ein gwaith Ymateb Brys, Atal a Diogelu a'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC 2040).

Yna taith o amgylch Gorsaf Dân Caerfyrddin, lle cawsant gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o'n tîm Diogelwch Cymunedol a roddodd enghreifftiau o'r gwaith maen nhw'n ei wneud i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

I gloi'r prynhawn, rhoddodd y criw o Orsaf Dân Caerfyrddin gyflwyniad ar y cit a'r offer arbenigol sy'n cael eu cario ar ein peiriannau rheng flaen.

Hoffem ddiolch i'r tri Uchel Siryf am gymryd yr amser i ddod i ymweld â ni ac edrychwn ymlaen at eu gweld eto yn y dyfodol.











# DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!







## Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

- 5ed Gorffennaf – Paned Gyda'r Criw yn Abergwaun
- 12fed Gorffennaf – Biker Down Cymru
- 21ain – 25ain Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru
- 30ain Gorffennaf – Diwrnod Agored Doc Penfro
- 2il Awst – Diwrnod Agored Aberystwyth
- 8fed Awst – Diwrnod Agored Pontardawe
- 9fed Awst – Biker Down Cymru
- 22ain Awst – Diwrnod Agored Gorsaf Caerfyrddin a Phencadlys
- 30fed Awst – Diwrnod Agored Aberdaugleddau

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

**Peidiwch â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol neu ewch i'n Tudalen Digwyddiadau, a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.**

## Dilynwch ni ar



# LLWYDDIANT CENEDLAETHOL YN FIRESPORT UK!

**Ar 13 Mai, cystadlodd Adran Pysgota â Phlu GTACGC ym mhencampwriaeth Genedlaethol FireSport UK yn Llyn Menteith yn yr Alban.**

Cafodd y tîm lwyddiant ysgubol yn y gystadleuaeth genedlaethol eleni, gyda sawl aelod wedi eu gosod yn y safleoedd uchaf. Llongyfarchiadau arbennig i'n Nigel Worvell o'n tîm ni, a ddaeth yn gyntaf yn y categori Tri Unigolyn Gorau a daeth hefyd yn gyntaf yng Nghystadleuaeth y Parau ochr yn ochr â Raymond Keenan.

## Canlyniadau

### Cystadleuaeth Parau

- Safle 1af – Raymond Keenan (10 pysgodyn) a Nigel Worvell (13 pysgodyn), gan ennill o un pysgodyn a phwysau cyfunol o 2.91 pwys.
- 2il Safle – Tîm C GTA yr Alban: Stuart McDonald (20 pysgodyn) a Danny O'Donnell (2 bysgodyn).
- 3ydd Safle – Tîm B GTA yr Alban: Mark Fleming (13 pysgodyn) a Davy Spinks (1 pysgodyn).

### Y Tri Unigolyn Uchaf

- 1af – Stuart McDonald (Yr Alban) – 20 pysgodyn, 40.40 pwys
- 2il – Neil Heath (Cleveland) – 13 pysgodyn, 30.12 pwys
- 3ydd – Nigel Worvell (GTACGC) – 13 pysgodyn, 27.90 pwys

### Pysgodyn trymaf


- Dyfarnwyd i Neil Heath (Cleveland) am frithyll seithliw 5 pwys

**Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y digwyddiad gwych hwn!**

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno ag Adran Pysgota Plu GTACGC, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn: **s.philpott@mawwfire.gov.uk.**

Mae'r Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol yn agored i holl aelodau'r gwasanaeth - gan gynnwys gwirfoddolwyr, diffoddwyr tân amser cyflawn ac ar-alwad, staff cefnogi, a phersonél wedi ymddeol.




PHIL H

PHIL HOOPE







# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI
ROUNDERS

CLWB CRICED
CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO
BOWLS CLUB

CLWB BEICIO
CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY
FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED
FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF
GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD
FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI
RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON
TRIATHLON CLUB

CLWB FFITRWYDD
FITNESS CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk

#DOETHIDANAUGWYLLT

# NID DIM OND GLASWELLT!

**Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn eich annog i chwarae eich rhan wrth ddiogelu'r amgylchedd a lleihau nifer ac effaith tanau gwyllt ledled Cymru.**

Ar ôl cyfnod hynod brysur o ran tanau glaswellt, lle mae Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru wedi gweld cynnydd o 407% yn nifer y tanau gwyllt rhwng mis Mawrth ac Ebrill 2025 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn eich atgoffa am y neges #DoethiDanauGwyllt yr haf hwn.

Gall misoedd y Gwanwyn a'r Haf ddod â llu o beryglon os nad ydych chi'n dilyn cyngor diogelwch ymarferol a chywir sy'n briodol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog pawb i fod yn ddoeth i danau gwyllt ac ymrwymo i ragofalon syml ac ychydig o ofal ychwanegol, er mwyn sicrhau y gallwn barhau i fwynhau ein cefn gwlad hardd a chadw ein cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau dinistriol tanau gwyllt.

Yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn, gall glaswellt a mynyddoedd fod yn sych iawn, sy'n golygu, os ydych chi'n cynnau tân yn yr awyr agored yn fwriadol neu'n ddamweiniol, bydd yn lledaenu'n gyflym iawn, gan ddinistrio popeth yn ei lwybr.

Er bod difrod i dir ac eiddo yn uniongyrchol ac yn weladwy, gall canlyniadau tanau gwyllt ymestyn i iechyd y cyhoedd, sefydlogrwydd economaidd, a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan achosi effeithiau parhaol a sylweddol ar les a ffyniant cymunedol.

ERTHYGL LLAWN

**Cofiwch - Os ydych allan yn mwynhau cefn gwlad a'ch bod chi'n gweld unrhyw weithgaredd amheus, ffoniwch Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111, neu ffoniwch 101. Os yw'n argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.**



# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL**









# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires




**www.tancgc.gov.uk**

CYLCHGRAWN CALON TÂN - RHIFYN YR HAF 2025